**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2012**

## CRYNODEB O'R AMCANION LLEIHAU RISG A GWELLA AR GYFER 2012-13

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 fel sydd yng Nghynllun cyhoeddedig yr Awdurdod ar Leihau Risg a Gwella 2010-11 i 2012-13.

## Y Cefndir

2. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi amcanion gwella ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

3. Dan y canllawiau cyffredinol, cyhoeddir y rhain bob blwyddyn cyn diwedd mis Hydref, sef chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi.

4. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyflwyno trefniadau dros dro i symud dyddiad cyhoeddi Cynlluniau Gwella 3-6 mis ymlaen fel eu bod yn cael eu llunio'n fwy effeithiol i fod yn gyson â'r cylchoedd cynllunio ariannol, ond ni ellid cael y caniatâd angenrheidiol i wneud y newidiadau mewn pryd erbyn blwyddyn 2012-13. Cadarnhawyd hyn ar e-bost ddiwedd mis Mawrth 2011.

## Gwybodaeth

5 Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd yr Awdurdod gyfres o amcanion gwella i weithio tuag atynt o Ebrill 2011 ymlaen. Yna, datblygwyd rhagor o amcanion o ganlyniad uniongyrchol i benderfyniad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2010 i rewi'r gyllideb flynyddol ar £32 miliwn o 2011-12 hyd at 2013-14.

6 Er ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn, nac ychwaith fod yn rhaid eu cyflawni o fewn blwyddyn.

7 Felly, penderfynodd Panel Gweithredol yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mai 2011, o ystyried:

- cwmpas eang yr amcanion presennol sydd eisoes yn y Cynllun i Leihau Risg a Gwella 2011 - 12;
- yr angen i ganiatáu amser i gyfnerthu'r amcanion presennol ar adeg o bwysau cynyddol o ganlyniad i leihau cyllidebau;
- amserlenni annisgwyl o dynn ar gyfer cyhoeddi cynllun 2012-13 erbyn diwedd mis Hydref 2011 yn hytrach nag ar ddiwedd Mawrth 2012;
- penderfyniad Llywodraeth Cymru i ohirio llunio Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub newydd, gan adael Fframwaith presennol 2008-11 yn ei le am y tro;

y dylai'r Awdurdod barhau â'r un amcanion yn 2012-13 fel yr oedd wedi eu mabwysiadu ar gyfer 2011-12. Cadarnhawyd hyn gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym Mehefin 2011, a chymeradwyo amcanion gwella 2012-13 yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2011.

8 Mae Amcanion Gwella 2012-13 yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

## Argymhelliad

9 Bod yr Aelodau'n nodi'r wyth o Amcanion Gwella ar gyfer blwyddyn 2012-13 fel y cyflwynir hwy yn Atodiad 1.

# Atodiad 1

| | **Amcanion Lleihau Risg a Gwella 2012-13** |
|---|---|
| | |
| **AMC 1** | Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. |
| | |
| **AMC 2** | Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n digwydd yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig, fel bod gweithgarwch arferol yn gallu parhau ac nad yw bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno'n cael eu rhoi mewn perygl.. |
| | |
| **AMC 3** | Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol. |
| | |
| **AMC 4** | Cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl. |
| | |
| **AMC 5** | Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub. |
| | |
| **AMC 6** | Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les, a lleihau'r risg i'w diogelwch personol. |
| | |
| **AMC 7** | Sicrhau bod trefniadau Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a sicr ag y gallent fod. |
| | |
| **AMC 8** | Ceisio ffyrdd i leihau cost gyffredinol rhedeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu gyda chyllideb flynyddol o £32 miliwn hyd at 2013-14. |
| | |